COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGORA 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MAWRTH, 15 MEDI 2020, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | PJ White | HM Williams | D Patel |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RE Young
Rheolwr Grŵp Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Phartneriaethau

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp Strategaeth Fusnes a Pherfformiad |
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |

526. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol:

Y Cynghorydd D Patel – buddiant rhagfarnol yn Eitem 16 gan ei bod wedi'i henwi yn yr adroddiad. Buddiant personol yn Eitem 17 gan fod ei phortffolio Cabinet wedi'i enwi yn yr adroddiad. Gadawodd y Cynghorydd Patel y cyfarfod tra bod eitem 16 yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd EM Williams – Buddiant personol yn eitem 14 ar yr Agenda, gan fod ei wyrion yn derbyn Teithio gan Ddysgwyr.

Y Cynghorydd CE Smith - Buddiant personol yn eitem 15 ar yr Agenda, gan fod ganddo nithoedd a nai a fynychodd Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.

527. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2020 a 21 Gorffennaf 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

528. RHEOLI ANSAWDD AER LLEOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYNNYDD 2020

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoliadol, adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd (APR) Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2020, sy'n seiliedig ar setiau data ansawdd aer a gafwyd yn 2019. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn cyflwyno fersiwn derfynol i Lywodraeth Cymru cyn 30 Medi 2020, yn ogystal ag i ystyried y Cynllun Gweithredu Drafft mewn perthynas ag allyriadau aer yn Park Street, Pen-y-bont ar Ogwr.

Yna cyflwynodd Swyddogion o'r adran Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (SRS) i gyflwyno'r adroddiad.

Cynghorwyd yr Aelodau, o dan Adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, bod gan bob awdurdod lleol rwymedigaeth i adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd yn rheolaidd, ac i benderfynu a yw amcanion ansawdd aer i ddiogelu iechyd yn debygol o gael eu cyflawni. Pan fo adolygiadau ansawdd aer yn nodi nad yw'r amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni, neu nad ydynt yn debygol o gael eu cyflawni, mae adran 83 o Ddeddf 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi Ardal Rheoli Ansawdd Aer ('AQMA'). Mae Adran 84 o'r Ddeddf yn sicrhau bod rhaid gweithredu wedyn ar lefel leol, a amlinellwyd mewn Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) penodol, i sicrhau bod ansawdd aer yn yr ardal a nodwyd yn gwella.

Rhoddodd yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol, a atodir yn Atodiad 1 i'r prif adroddiad, fanylion am y data a gadarnhawyd ar gyfer monitro ansawdd aer a gynhaliwyd yn 2019 o fewn CBSP.

Cafodd Gorchymyn AQMA Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr ei weithredu'n swyddogol ar 1 Ionawr 2019. Mae'r ardal a ddynodwyd yn Orchymyn Rhif 1 Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Park Street wedi ei amlinellu yn Ffigur 1, a ddangosir ar y cynllun ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Amlinellodd Adroddiad Cynnydd Blynyddol (APR) 2020 y diwygiadau a wnaed i rwydwaith monitro NO2 anawtomatig a ddefnyddiwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2019. Digomisiynwyd y lleoliadau monitro NO2 anawtomatig presennol i ganiatáu cydymffurfiaeth barhaus, a chomisiynwyd lleoliadau monitro NO2 newydd er mwyn cryfhau'r ddealltwriaeth mewn ardaloedd monitro presennol, megis AQMA Park Street a Cowbridge Road.

Mae APR 2020 yn cadarnhau bod ansawdd aer wedi parhau i fod yn bryder cyffredin yn 2019, ar hyd Park Street gan gyd-daro â ffin ddaearyddol Gorchymyn AQMA Park Street, Pen-y-bont ar Ogwr a godwyd ar 1 Ionawr 2019. Nododd hefyd bod cyfartaleddau blynyddol uwch o ran lefel ansawdd aer i'w cael yn agos i Park Street, ar hyd rhwydweithiau ffyrdd cyfagos lle mae cysylltiad perthnasol yn amlwg. Mae Ffigur 2 yn dangos y safleoedd monitro anawtomatig sydd wedi'u lleoli yn AQMA Park Street a'r cyffiniau. Eglurwyd rhagor o fanylion am hyn yn yr adroddiad.

Roedd yn hanfodol bod y safleoedd monitro a amlygwyd yn cael eu harchwilio'n ofalus a bod camau addas yn cael eu cymryd pan fo angen. Gall camau o'r fath olygu diwygio Gorchymyn AQMA Park Street, gan gynnwys diwygio'r ffin ddaearyddol er mwyn cynnwys ardal ehangach, a'r rhesymau dros ddatgan.

Yn ogystal â'r rhwydwaith monitro nad yw'n awtomataidd sy'n benodol i AQMA Park Street, mae'n hanfodol bod SRS/CBSP yn gwella'r galluoedd monitro ansawdd aer ar hyd Park Street drwy gyflwyno system monitro ansawdd aer awtomataidd (AMS).

Fel rhan o ddyletswyddau statudol LAQM, o ddyddiad y Gorchymyn AQMA (sef 1 Ionawr 2019 yn yr achos hwn) mae gan SRS a CBS Pen-y-bont ar Ogwr 18 mis i baratoi cynllun

gweithredu DRAFFT i wella ansawdd aer yn yr ardal, ac unwaith y cytunir arno, rhaid i'r cynllun hwn gael ei fabwysiadu'n ffurfiol cyn pen dwy flynedd.

Er mwyn datblygu syniadau a sicrhau AQAP effeithiol sy'n rhoi ystyriaeth i bob agwedd ac yn blaenoriaethu iechyd y cyhoedd, mae Grŵp Llywio Gwaith AQAP wedi'i lunio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol adrannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â phersonau o'r BGC'au lleol.

Mae graddau'r lefelau ansawdd aer a archwiliwyd ar Park Street, a gytunwyd gan Grŵp Llywio Gwaith yr AQAP ac sy’n cyd-daro â'r adborth a gafwyd yn sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2019, yn deillio o natur llif y traffig sy'n defnyddio'r rhwydwaith. Ymddengys mai ciwio a llif traffig anghyson yw prif achos y lefelau ansawdd aer gwael a adroddir.

Yn dilyn y Dadansoddiad Cost a Budd dangosol, gwnaed penderfyniad gan Grŵp Llywio Gwaith yr AQAP i fynd ar drywydd yr opsiynau lliniaru hynny a fyddai’n rheoli ac yn gwella llif y traffig drwy AQMA Stryd y Parc, a thrwy hynny sicrhau gwelliannau o ran ansawdd aer cyn gynted ag sy’n bosibl, yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a BCBC, ac i ostwng y lefelau cymaint ag sy’n rhesymol ymarferol.

Yna eglurodd Swyddogion yr SRS rai cynigion a awgrymwyd i gyflawni'r uchod.

Daeth y Swyddogion a’u hadroddiad i ben drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod casglu data ansawdd aer yn wasanaeth hanfodol, ac ailddechreuwyd y gwaith monitro ym mis Mai 2020. Bydd angen cywiro/cadarnhau'r canlyniadau ar gyfer 2020, sydd i’w cofnodi yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2021, o ystyried y bylchau yn y setiau data blynyddol oherwydd sefyllfa COVID.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles ganmoliaeth i’r adroddiad a’r holl waith caled a wnaed i’w greu, gan gynnwys sesiynau galw heibio yn Halo ddiwedd y llynedd.

Diolchodd hefyd i Aelodau lleol y Ward yn ardal Park Street, am eu cyfraniadau. Tynnodd sylw at y ffaith fod yr adroddiad yn seiliedig ar ddata 2019 a oedd yn cefnogi canfyddiadau 2018 a ddeilliodd o'r Gorchymyn Rheoli Ardal, a grëwyd o ganlyniad i giwio traffig yn yr ardal hon o Ben-y-bont ar Ogwr.

Estynnodd yr Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles ei diolch hefyd i'r aelodau hynny o'r cyhoedd a fu’n rhan o’r ymgynghoriadau â hi, staff yr SRS, aelodau lleol, a staff eraill y Cyngor ynglŷn â'r mater hwn, a oedd yn broblem iechyd y cyhoedd. Roedd angen lleihau'r lefelau nitrogen deuocsid yn Park Street i’r lefel isaf posibl cyn gynted â phosibl. Ychwanegodd y byddai'r cynigion yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn cael eu monitro wrth symud ymlaen, gan gynnwys unrhyw fesurau nad ydynt wedi'u gweithredu eto.

Nododd yr Arweinydd awgrym y gellid, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem uchod, hwyluso ffordd osgoi yn y lleoliad hwn, h.y. ar ben Park Street ger y goleuadau traffig, er mwyn lleddfu ar dagfeydd traffig a phroblemau ansawdd aer. Fodd bynnag, teimlai fod hwn yn fater sylweddol o ran adnoddau ac y byddai darparu hyn, mae'n debyg, ond yn symud y broblem, gan achosi mwy o broblemau traffig/materion ansawdd aer mewn mannau eraill.

Dywedodd Swyddog SRS fod nifer o atebion lliniarol yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynigion Rheoli Ansawdd Aer Lleol, ond bod yn rhaid iddynt fod yn opsiynau hyfyw a chyraeddadwy, a’n rhai y gellid eu gweithredu o fewn amserlen briodol.

Roedd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol yn adleisio y byddai darparu ffordd osgoi yn ddatrysiad drud iawn i'r broblem. Gellid edrych ar ffactorau lliniarol eraill, dywedodd, megis annog y defnydd o gerbydau allyriadau carbon isel gan y cyhoedd, rhywbeth a oedd yn uchel ar agenda'r Llywodraeth, a ffyrdd o atal cerbydau'n troi'n weili mewn lleoliadau fel Park Street, er bod hyn wastad yn anodd ar rwydweithiau priffyrdd lle ceir goleuadau traffig, a cheir yn cael eu dal mewn traffig yn rheolaidd. Gallai defnyddio mwy ar lwybrau Teithio Llesol gyfrannu at yr ateb hefyd, ychwanegodd.

Daeth yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio â'r ddadl ar yr adroddiad i ben drwy ddweud fod llwybr beicio/cerddded o Ben-y-fai i Gefn Glas yn bosibilrwydd hirdymor gwerth ei ystyried, yn enwedig o gofio bod y darn o briffordd sy'n cysylltu'r ddau leoliad ar hyn o bryd yn beryglus iawn i feicwyr a cherddwyr.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

(1) Yn nodi a derbyn canlyniadau'r monitro ansawdd aer a gasglwyd yn 2019.
(2) Yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran datblygu'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer Park Street, ac yn cymeradwyo'r penderfyniad i fwrw ymlaen ag asesiadau trafnidiaeth ac ansawdd aer manwl i helpu i fesur yr effaith y gallai'r mesurau a ffafrir ei chael ar ansawdd aer yn AQMA Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr.
(3) Cytuno y dylid cwblhau'r Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd 2020 (sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad) i'w gyflwyno fel fersiwn terfynol i Lywodraeth Cymru cyn 30 Medi 2020.

529. PANEL ADFER TRAWSBLEIDIOL - CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION CAM 1

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol adroddiad (ar ran y Pwyllgor) i hysbysu'r Cabinet am Ganfyddiadau ac Argymhellion Cam 1 y Panel Adfer Trawsbleidiol sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i'r Bwrdd Gweithredol nodi y bydd gwaith y Panel Adfer Trawsbleidiol yn parhau, gydag adolygiadau rheolaidd o'r gwaith er mwyn helpu i sicrhau effeithiolrwydd ac ymateb i unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y cytunwyd i sefydlu Panel Adfer Trawsbleidiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu ar 13 Gorffennaf 2020. Mae aelodau'r Panel Adfer yn cynnwys y 12 Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ynghyd â 4 Aelod ychwanegol: 2 Llafur; 1 Cynghrair Annibynnol, ac 1 Ceidwadwr, i'w henwebu gan Arweinwyr Grŵp. Sefydlwyd y Panel gyda'r nod o lunio, hysbysu, a chynghori'r Cabinet ar gynllunio adfer y Cyngor, a fyddai'n sail i'r cyfnod o adfer yn sgil pandemig Covid-19.

Cyfarfu'r Panel Adfer Trawsbleidiol chwe gwaith yn ystod mis Awst ac fe'u cefnogwyd gan yr Uwch Swyddog Democrataidd – Craffu, dau Swyddog Craffu, a Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol. Yn ystod ei gyfarfodydd, ystyriodd y Panel Adfer Trawsbleidiol gyflwyniadau gan wahoddedigion, gan gynnwys: Swyddogion Tîm y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB); Prif Weithredwr, Rheolwr Gweithredol, a Llywiwr Cymunedol o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO); y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion; Cyfarwyddwr Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr; y Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth a'r Rheolwr Grŵp - Tai.

Ychwanegodd fod y Panel Adfer Trawsbleidiol, yng Ngham 1, wedi mabwysiadu dull strwythuredig o ddethol meysydd allweddol o'r rhai a nodwyd i dderbyn blaenoriaeth, a

hynny er mwyn bwydo i mewn i'r broses adfer, a'u bod wedi nodi materion allweddol yn dilyn archwiliad.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi derbyn adroddiad ar ganfyddiadau'r Panel Adfer Trawsbleidiol ar 7 Medi 2020, a chymeradwyodd y dylid anfon argymhellion y Panel i'r Cabinet fel rhan o'r broses adfer, er mwyn bwydo'r broses o adlinio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y camau dilynol a gynigiwyd ar gyfer y Panel Adfer, ac ystyriodd a oedd yn dymuno i waith y Panel barhau y tu hwnt i fis Medi. Cydnabuwyd bod adferiad y Fwrdeistref Sirol yn sgil pandemig Covid-19 yn rhaglen sylweddol a chymhleth sy'n allweddol i fywiogrwydd economaidd a gwydnwch cymunedol y fwrdeistref sirol a'i thrigolion.

Cwblhaodd y Cadeirydd ei chyflwyniad drwy gyfeirio'r Aelodau at yr 16 Argymhelliad a wnaed gan y Panel Adfer Trawsbleidiol ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Diolchodd yr Arweinydd i Aelodau'r ddau gorff uchod am y gwaith yr oeddent wedi'i gyfrannu, fel yr adlewyrchir yn Atodiad yr adroddiadau.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r argymhellion yn cael eu harchwilio ar y cyd â Chynllun Corfforaethol diwygiedig a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn y man. Y rhain ynghyd â ffactorau cyfrannol eraill fyddai'n llunio Cynllun Adfer y Cyngor.

Cwblhaodd yr Arweinydd ddadl ar yr eitem drwy sicrhau y byddai'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn rhoi blaenoriaeth i unrhyw argymhellion a oedd yn sensitif i amser.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

(1) Ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Panel Adfer Trawsbleidiol (Atodiad A i'r adroddiad) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel rhan o'r broses adfer, er mwyn bwydo adliniad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Corfforaethol y Cyngor;

(2) Nodi y bydd gwaith y Panel Adfer Trawsbleidiol yn parhau ac y bydd argymhellion pellach yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu a'r Cabinet i'w cymeradwyo

530. CYNLLUN ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL: SAFLEOEDD SALT LAKE A SANDY BAY

Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad i'r Cabinet, a hynny er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am gyflwyniad safleoedd ymgeisiol i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r fframwaith defnydd tir arfaethedig ar gyfer y cynllun strategol hwn. Roedd hefyd am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y bwriad i farchnata'r safle manwerthu bwyd sydd ar ran o faes parcio The Green a Salt Lake, ac, yn olaf, roedd am ofyn am benderfyniad ffurfiol i awdurdodi swyddogion i ddechrau'r holl gamau angenrheidiol i gaffael tir i gefnogi prosiect Adfywio Glannau Porthcawl, gan gynnwys camau paratoadol i wasanaethu Gorchymyn Prynu Gorfodol.

Cadarnhaodd fod dau ddarn o dir o fewn safle Adfywio Glannau Porthcawl y mae'r prif dirfeddianwyr yn awyddus i hyrwyddo eu datblygiad ac yna eu gwarediad:

1. Tir ar safle maes parcio Salt Lake (cam 1) sy'n eiddo i'r Cyngor yn unig.
2. Tirddaliadau sylweddol ar safleoedd Coney Beach a Sandy Bay (cam 2), sy'n eiddo i'r Cyngor a thirfeddiannwr mawr arall.

Tynnodd yr adroddiad sylw at rai o'r camau nesaf wrth gyflawni'r prosiect hwn.

Cadarnhaodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol, fod y safle, ar hyn o bryd, wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad cymysg o fewn y Cynllun Datblygu Lleol presennol. Cefnogir y dynodiad hwn gan y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd, y cyfeirir atynt yn aml fel y "Seven Bays Project – Porthcawl Waterfront SPGl". Mae'r safle wedi'i gyflwyno fel safle ymgeisiol i'w ystyried fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol 2018-2033 (CDLl) newydd.

Eglurodd fod y prif dirfeddianwyr, er mwyn dangos tystiolaeth o allu a hyfywedd y safle, wedi cynhyrchu fframwaith defnydd tir a phrif gynllun drafft i'w hystyried fel rhan o broses y CDLl. Dangoswyd y cynllun defnydd tir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Aeth Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol ymlaen i gadarnhau bod y Cyngor, fel y cam cyntaf wrth gyflwyno'r cynllun Cam 1 ar dir maes parcio Salt Lake, yn bwriadu marchnata safle manwerthu bwyd o tua 2.2 erw ar ran ogleddol o faes parcio The Green a Salt Lake. Dangosodd Atodiad 2 yr adroddiad amlinelliad coch o'r safle lle bwriedir gwneud hyn.

Rhagwelwyd y bydd y marchnata'n dechrau yn gynnar yn nhymor yr hydref 2020, ac y bydd ceisiadau'n cael eu derbyn a'u gwerthuso erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y flwyddyn newydd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i geisio cymeradwyaeth i waredu'r safle.

Mae safle'r siop fwyd yn elfen allweddol o'r uwch gynllun ehangach sydd wedi'i lunio ar gyfer Cynllun Adfywio Glannau Porthcawl, a'r bwriad yw iddi weithredu fel rhagflaenydd a chatalydd ar gyfer camau datblygu ar draws y safle ehangach yn y dyfodol.

Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol fod y prif berchenogion tir yn y safleoedd Cam 2, Sandy Bay a Coney Beach, yn awyddus i gyflwyno eu tirddaliadau i'w gwaredu. Mae rhai parseli tir gwag lle mae angen glanhau'r teitl neu sydd o dan berchnogaeth trydydd parti ac y mae angen eu caffael.

Bydd y Cyngor yn ceisio caffael tir y trydydd parti drwy gytundebau a negodir. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl caffael tir y trydydd parti drwy gytundeb ac, os bydd angen, bydd y Cyngor yn defnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gaffael tir o fewn y ffin goch ac fel y dangosir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Yna cwblhaodd ei gyflwyniad drwy gyfeirio'r Cabinet at oblygiadau ariannol yr adroddiad, gyntaf oll gan ychwanegu y rhagwelir y bydd gwerthu'r storfa fwyd ar safle maes parcio Salt Lake yn cynhyrchu derbynneb cyfalaf. Ym mis Tachwedd 2018 penderfynodd y Cyngor ddefnyddio'r dderbynneb hon i fuddsoddi mewn gwelliannau seilwaith cymeradwy o brosiect Adfywio Porthcawl, gan gynnwys gwella Maes Parcio Hillsborough ar gyfer canol y dref.

Byddai cost i gaffael tir ar safle Sandy Bay / Coney Beach, gan gynnwys unrhyw iawndal sydd i'w dalu. Bydd y costau'n cael eu rhannu rhwng y prif berchnogion tir. Hyd yma, nid oes unrhyw gyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer hyn, a phe bai'n mynd rhagddo bydd adroddiad ar wahân yn cael ei ddwyn gerbron y Cabinet a'r Cyngor er mwyn cynnwys cyllid o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

Diolchodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio i'r Swyddogion ac i'r Aelodau Ward lleol am eu gwaith caled yn ystod y cam diweddaraf hwn o adfywio Porthcawl, er gwaethaf yr oedi yn sgil Covid.

Ychwanegodd ei fod ef ei hun wedi ymgysylltu â Chyngor Tref Porthcawl ac Ymddiriedolaeth Ddinesig Porthcawl, ac wedi siarad â Chymru Gynhaliol ynglŷn â'r cynigion ac i ddatblygu syniadau ar gyfer datblygiadau ynni carbon isel fel rhan o'r cynllun datblygu. Fel rhan o'r broses ymgynghori, roedd hefyd wedi ymgysylltu ag ysgolion ym Mhorthcawl ar y cynigion a argymhellwyd ac i glywed eu syniadau.

Bu trafodaethau'n parhau gyda'r RNLI hefyd, yn ogystal â'r AS lleol a chydweithwyr yn Senedd Cymru, gan gynnwys trafod prynu'r brydles ym maes parcio Salt Lake, ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio.

Byddai rhan Hamdden y cynigion yn cynnwys datblygiadau cymysg, ac ychwanegodd y byddai ymgais i gaffael cytundeb prydlesu tymor byr ar gyfer y safle, cyn caffael fersiwn tymor hwy unwaith y ceir dealltwriaeth o'r farchnad o ran cynigion am y tir.

Cwblhaodd ei gyfraniad drwy ddweud bod rhai o fanylion y Cynllun Meistr ar gyfer gwaith Promenâd y Dwyrain wedi'u diwygio, gan arwain, yn ei dro, at gynnwys ardal i gerddwyr ac Esplanade/Promenâd priodol ar y safle.

Byddai unrhyw dderbyniadau Cyfalaf o'r Cynllun hefyd yn cael eu buddsoddi yn ôl ym Mhorthcawl ar gyfer cynigion ailddatblygu pellach.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio na fyddai'n ofynnol mynd ar drywydd Gorchymyn Prynu Gorfodol gyda rhywfaint o'r tir o fewn safleoedd Cam 2 Sandy Bay/Coney Beach, ac y gellid sicrhau gwerthiant yr ardaloedd 'poced' hyn drwy gytundeb â'r tirfeddianwyr. Gofynnodd a oedd y cynigion yn yr adroddiad wedi bod yn destun rhywfaint o ymgynghori cyhoeddus sylweddol, a chadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol eu bod.

Daeth yr Arweinydd a'r ddadl ar yr eitem i ben drwy ailadrodd yr hyn a ddywedwyd yn gynharach gan yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio, sef y byddai unrhyw arian a ysgwyddir o werthu tir yn cael ei benodi i Borthcawl.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Fod y Cabinet wedi:

(1) Nodi'r bwriad i gyflwyno fframwaith defnydd tir fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cynllun Adfywio Porthcawl.

(2) Nodi'r cynnig i farchnata gwerthiant tir sy'n rhan o faes parcio The Green a Salt Lake, i'w ddefnyddio fel safle siop fwyd

(3) Cymeradwyo gwneud penderfyniad i awdurdodi swyddogion i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gaffael y tir o fewn yr amlinell goch ar y cynllun amgaeedig, gan gynnwys pob cam paratoadol ar gyfer gwneud gorchymyn prynu gorfodol at ddibenion galluogi datblygiad Cynllun Adfywio Porthcawl yn ei gyfanrwydd.

531. GWASANAETH MEWNOL AR GYFER DIODDEFWYR CAMDRINIAETH DDOMESTIG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad uchod a gofynnodd i'r Cabinet a ellid ei ohirio tan gyfarfod yn y dyfodol, a hynny er mwyn cael trafodaethau pellach a manylach gyda rhanddeiliaid.

Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig hwn.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi cytuno i ohirio'r eitem hon er mwyn mynd ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid.

532. CYNLLUN ATAL AC YMATEB COVID-19 AR GYFER RHANBARTH CWM TAF MORGANNWG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Atal ac Ymateb COVID-19 ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

Er cefndir, dywedodd wrth yr Aelodau fod llythyr ar y cyd gan Brif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, wedi'i ddanfon ar 27 Gorffennaf 2020, ac ynddo gofynnwyd i Fyrddau Iechyd Lleol arwain y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Atal ac Ymateb Covid-19 Lleol mewn partneriaeth â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol.

Roedd y Cynllun Ymateb Diogelu Iechyd y Cyhoedd a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru yn cynnwys 3 elfen allweddol, fel a ganlyn:-

1. Atal Coronafeirws (COVID-19) rhag lledaenu drwy olrhain cysylltiadau a rheoli achosion.
2. Samplu a phrofi gwahanol bobl yng Nghymru.
3. Goruchwylio'r boblogaeth.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y 3 elfen hyn wedi'u cymeradwyo gan Gynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr.

Mae llythyrau a chanllawiau dilynol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi y dylai gweithredu system genedlaethol a lleol integredig yn effeithiol fod yn seiliedig ar chwe egwyddor, fel yr amlinellir yn ail ran paragraff 3.2 yr adroddiad.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr, fod gan Awdurdodau Lleol rôl ganolog yn y gwaith o reoli ymateb Covid-19 yng Nghymru. Dangoswyd hyn wrth ddarparu gofal cymdeithasol a chymorth i'r preswylwyr mwyaf agored i niwed; y canolfannau gofal plant sy'n rhoi cymorth i weithwyr allweddol hanfodol a chefnogi plant sy'n agored i niwed; cynnal gwasanaethau hanfodol a'r rôl hollbwysig sydd gan awdurdodau lleol yn y rhaglen Test Trace Protect (TTP) ac ymateb i ddigwyddiadau neu achosion.

Aeth yn ei flaeni egluro fod y Grŵp Goruchwylio Strategol Rhanbarthol (RSOG), yn goruchwylio chwe ffrwd waith, sef:

- Goruchwylio;
- Samplu a Phrofi;
- Olrhain Cysylltiadau a Rheoli Achosion;
- Cyfathrebu Risg ac Ymgysylltu â'r Gymuned;
- Diogelu, a;
- Brechu torfol Covid-19

Mae Cynllun Atal ac Ymateb Cwm Taf Covid-19, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn darparu dull cadarn o ymdrin ag ymateb effeithiol y rhanbarth i fygythiad Covid-19, gan nodi'n glir hefyd sut y byddai'n parhau i wneud hynny.

Yn Atodiad 4 o'r Cynllun ceir amlinelliad o'r ystyriaethau ar gyfer mesurau gwella lleol, pan fo cynnydd mewn achosion wedi galw am fesurau ychwanegol i reoli trosglwyddiad yr haint. Roedd Cynllun Gweithredu a dogfennau cysylltiedig hefyd yn cefnogi prif Gynllun.

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi trosolwg o'r dangosyddion gwyliadwriaeth allweddol a'r amserlen adrodd (cyfeiriwyd at Atodiad 5 o'r adroddiad).

Dywedodd y Prif Weithredwr fod tystiolaeth ddiweddar iawn yn dangos fod y firws ar gynnydd unwaith eto trwy rannau o Gymru, er nad oedd cymaint ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd.

Cwblhaodd y Prif Weithredwr yr adroddiad drwy gadarnhau y bydd adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun yn cael eu cynnal drwy'r Grŵp Goruchwylio Strategol Rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau effeithiolrwydd gweithredu neu'r angen am newid. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei adolygu mewn ymateb i unrhyw faterion rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg. Bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Goruchwylio Strategol Rhanbarthol, gan weld y cynllun yn ôl y gofyn, a hefyd gan bartneriaid unigol fel y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol.

Roedd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ddiolchgar am yr adroddiad a'r wybodaeth fanwl a oedd wedi'i chynnwys yn ei ddogfennau ategol. Ychwanegodd ei bod hefyd yn ddiolchgar i'r 40 Cynghorydd Cyswllt o CBSP a oedd unwaith eto wedi rhoi eu cefnogaeth yn ystod y pandemig.

Roedd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn pryderu am y cynnydd diweddar mewn achosion ynghyd â'r sefyllfa gyda Chartrefi Gofal. Gofynnodd a oedd mesurau'r prosiect Monitro ac Olrhain (TTP) yn ddigon cadarn, o gofio'r cynnydd sydyn mewn achosion ym Mwrdeistrefi Sirol cyfagos Rhondda Cynon Taf a Merthyr.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod 8 Swyddog Addysg wedi'u hychwanegu at y timau TTP a rennir ar draws y 2 ardal uchod a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er ei fod yn cydnabod pe bai'r naid sydyn yn parhau i gynyddu efallai y bydd yn rhaid rhoi mwy o Swyddogion yn y rôl hon. Roedd cyllid TTP ar gael ar gyfer atgyfnerthiadau staffio o'r fath. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar drefniadau cyd-gymorth er mwyn ymrwymo adnoddau ychwanegol i weithio'n gorfforaethol ledled Cymru, yn hytrach nag fesul awdurdod lleol. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynghori Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar na ddylid caniatáu ymwelwyr i Gartrefi Gofal ar hyn o bryd oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion Covid a'r ffaith fod y trigolion ymysg y mwyaf bregus yn ein cymuned.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod y tîm TTP wedi'i gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ers 1 Medi, a bod nifer sylweddol o'r tîm Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir wedi'u secondio yno i gynorthwyo gyda gwaith TTP. Roedd rhai cyflogeion a oedd yn wreiddiol yn rhan o'r TTP ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u secondio i RhCT i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn oherwydd y cynnydd sydyn mewn achosion, ac os bydd y cynnydd sydyn yn parhau efallai y bydd angen mwy o weithwyr BCB i gefnogi'r gwaith hwn maes o law.

Dywedodd yr Arweinydd fod y clo yng Nghaerffili yn ein hatgoffa o'r risg i'r cyhoedd pe na reolir y firws. Roedd achosion yn dechrau cynyddu'n araf ym Mhen-y-bont ar Ogwr a

Rhondda Cynon Taf. Anogodd bobl Pen-y-bont ar Ogwr i wneud eu rhan yn y frwydr yn erbyn y feirws, oherwydd pe bai achosion yn parhau i godi yma byddai angen cymryd camau i leihau nifer yr achosion, gan gynnwys cyflwyno cyfnod clo arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr pe byddai angen.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet yn nodi'r adroddiad a'r atodiadau ac yn cymeradwyo Cynllun Atal ac Ymateb COVID-19 ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

533. CYNLLUN CORFFORAETHOL DIWEDDARAF 2018-2022 WEDI'I ADOLYGU AR GYFER 2020-21, YN DILYN EFFAITH COVID-19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-2022 a adolygwyd ar gyfer 2020-21, yn dilyn effaith Covid-19 (Atodiad A i'r adroddiad), ac i gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol Diwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor gael ei gymeradwyo.

Bydd pandemig Covid-19 yn effeithio ar allu'r Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni'r amcanion llesiant a nodir yn y Cynllun Corfforaethol newydd. Felly, byddai'n ddoeth ailedrych ar yr ymrwymiadau a'r targedau presennol ac ailffocysu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweddill 2020-21.

Yn Atodiad A i'r adroddiad eglurhaol amgaewyd dyfyniad o'r Cynllun Corfforaethol wedi'i adnewyddu a oedd yn nodi newidiadau arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys rhai mân newidiadau i ymrwymiadau CBSP yn ogystal â rhai newydd i adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth allweddol y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt ar gyfer gweddill 2020-21.

Mae nifer o fesurau llwyddiant newydd yn y Cynllun hefyd, yn ogystal â rhai cyfredol lle mae'r targedau wedi'u hailystyried.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod ymrwymiadau/gwelliannau newydd wedi'u nodi mewn coch yn y Cynllun newydd, yn ogystal â newidiadau i unrhyw dargedau. Lle'r oedd ymrwymiadau/mesurau wedi'u dileu, dangoswyd y rhain ond â llinell trwyddynt.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau yn Atodiad A, byddai'r ymrwymiadau a'r mesurau diwygiedig yn disodli'r ymrwymiadau a'r mesurau hynny a nodir yn y Cynllun Corfforaethol presennol, a byddai'n dod yn Gynllun Corfforaethol 2018-2022 wedi'i ddiweddaru a'i adolygu ar gyfer 2020-2021 fersiwn 2. Amgaewyd hwn yn Atodiad B i'r adroddiad.

Byddai cyflawni'r uchod yn cael ei gefnogi gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) a Chynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth, y byddai'r ddau ohonynt yn cael eu monitro'n agos yn y dyfodol canolig/interim.

Awgrymodd yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol rai ychwanegiadau/diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig ac adlewyrchwyd y rhain yn y penderfyniad isod.

Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad nad oedd angen byrdwn y Cynllun Corfforaethol i gynnwys yr holl wasanaethau a ddarparodd yr Awdurdod, ond yn hytrach y dylai gyflwyno Cynlluniau Gwella'r Cyngor, yn enwedig yn wyneb y pandemig.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r diweddariadau i Gynllun Corfforaethol 2018-22 a adolygwyd ar gyfer 2020-21, sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, ac yn cytuno ar gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol

diwygiedig yn Atodiad B i'r Cyngor, gyda'r cafeatau canlynol:

1. **Atodiad A – Amcan Llesiant 1 – Cefnogi Economi Gynaliadwy Lwyddiannus – Maes Blaenoriaeth: Twf a Ffyniant** – Naratif pellach i'w gynnwys ar waith sy'n cael ei wneud i leihau nifer yr eiddo gwag yng nghanol trefi a hyrwyddo'r economi i'r eiddo manwerthu hynny sydd mewn busnes ar hyn o bryd.

2. **Atodiad A – Amcan Llesiant 2 - Helpu Pobl a Chymunedau i fod yn fwy Iach a Chryf.**

a) Lle cyfeirir at weithio mewn partneriaeth, ychwanegu at hyn drwy gynnwys y trydydd sector, yn ogystal â Chynghorau Tref a Chymuned, a Grwpiau Cymuned.
b) Ychwanegu darpariaeth ynglŷn â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi 'pobl sy'n cysgu ar y stryd' i'w cadw oddi ar y strydoedd, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r rhai sy'n ddigartref.

**Cyffredinol**

3. Bod darpariaeth yn cael ei hychwanegu at y Cynllun Corfforaethol o ran datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu cysylltiedig i gefnogi gwaith sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid i gefnogi iechyd meddwl Oedolion a Phlant (yn enwedig yng ngoleuni pandemig Covid-19).

534. DATBLYGU CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol CBSP 2020-2024 ac i'w fabwysiadu.

Dywedodd fod yn rhaid i'r Cyngor, o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n cynnwys amcanion sy'n disgrifio sut yr eir i'r afael â materion cydraddoldeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr dros y pedair blynedd nesaf.

Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd blynyddol sy'n disgrifio'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol 2016-2020 i Bwyllgorau Cydraddoldebau'r Cabinet ers 2016. Bydd adroddiadau cynnydd blynyddol yn parhau i gael eu cyflwyno yn ystod oes Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

Cadarnhaodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020 (atodiad 1 i'r adroddiad). Er mwyn datblygu'r cynllun gweithredu cydraddoldeb (atodiad 2) roedd y Cyngor wedi:

- Adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 a'n cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod hwn
- Rhoi rhagor o ystyriaeth i bob un o'r naw nodwedd warchodedig a gwmpesir gan dri phrif nod y ddyletswydd gyffredinol, ynghyd â'r gofyniad i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, a gweithredoedd eraill a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Ystyried gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (a ohiriwyd bellach tan fis Mawrth 2021)
- Ystyried materion cenedlaethol a lleol yn ogystal ag ymgyrch Black Lives Matter ac effaith COVID-19

- Defnyddio’r adborth a geir yn rheolaidd gan grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol a thrwy Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr, megis pa mor hygyrch yw ein gwasanaethau a sut y gallwn helpu wrth gefnogi, hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o faterion fel troseddau casineb a Mis Hanes LGBTQ
- Gweithio gyda gwasanaethau i ddatblygu camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i’w cyflwyno dros y pedair blynedd nesaf

Yna cyfeiriodd yr adroddiad at y broses ymgynghori a oedd wedi digwydd o ran y Cynllun Gweithredu, a’r 25 o ganlyniadau a 58 o gamau gweithredu a ddeilliodd ohono.

Ychwanegodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod pob un o'r amcanion yn y cynllun gweithredu yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig perthnasol, pum ffordd o weithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a'n blaenoriaethau corfforaethol.

Byddai cynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn cael ei adolygu'n flynyddol, a hynny er mwyn dangos cynnydd yn erbyn camau gweithredu, i ymgorffori meysydd gwaith newydd i'r cyngor, i adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, ac i ddatblygu unrhyw amcanion newydd drwy gydol y cynllun.

Canmolodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol y Cynllun Gweithredu a oedd, yn ei barn hi, yn eglur a’n hawdd ei ddefnyddio o ran sefydlu'r hyn yr oeddem wedi ymrwymo iddo. Roedd yn arbennig o falch o weld ymrwymiad i'r ymgyrch menopos, chwarae, llwgu yn ystod y gwyliau, ac ymestyn y gwaith o fonitro bylchau cyflog i gynnwys unrhyw fylchau posibl rhwng gweithwyr BAME a gweithwyr anabl. Gan fod y Cynllun Gweithredu'n esblygu, roedd yn edrych ymlaen at weld mwy o waith yn cael ei ychwanegu ato yn y dyfodol, ar bobl ag anableddau cudd a pherthnasoedd iach er enghraifft.

Roedd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio hefyd yn falch o nodi bod y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â mater 'Black Lives Matter' a bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn cael ei galonogi gan y cynnydd yn yr hyfforddiant a gynigiwyd mewn ysgolion, ac roedd yn edrych ymlaen at weld y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu monitro gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb wrth symud ymlaen.

Daeth y Dirprwy Arweinydd â’r ddadl i ben drwy ddweud ei fod wedi’i galonogi o weld cynnydd o ran gweithredu'r cyflog Byw Gwirioneddol i holl weithwyr y Cyngor (rhywbeth o fudd i'r rhai ar y cyflogau isaf).

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNIAD:</u> | Fod y Cabinet yn cymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2020-2024. |

535. <u>CYNLLUN CYFLAWNI GWASANAETHAU - EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL 5 MLYNEDD</u>

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad i’r Cabinet er mwyn rhoi adborth ymgynghori cyhoeddus iddynt ar gyfer Cynllun Cyflawni drafft y Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – Ein Gweledigaeth 5 Mlynedd 2020 - 2025.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Cyflawni a Chynllun Gweithredu Gwasanaethau 5 Mlynedd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Er cefndir, cadarnhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod Cynllun Cyflawni Gwasanaethau 5 Mlynedd drafft y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2020-2025) yn adeiladu ar y Strategaeth Gomisiynu ddeng mlynedd flaenorol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r ddogfen 'Gweledigaeth ar Waith, Canlyniadau Gwell i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd' Gofal Cymdeithasol Plant. Mae'r dogfennau hyn wedi bod yn hanfodol wrth lywio strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac, yn eu tro, wedi llywio'r ystod o raglenni trawsnewid hanfodol a fu'n ymateb i alw cynyddol a phwysau ariannol. Roedd y diweddariad o'r Cynllun Cyflawni Gwasanaethau wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad, tra bod ei Gynllun Gweithredu ategol i'w weld ar dudalen 572 o'r adroddiad (pecyn).

Parhaodd drwy ddweud bod y Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau drafft wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu'r Cyngor ar 13 Chwefror 2020. Cododd y Pwyllgor rai sylwadau nodedig sydd wedi'u hychwanegu i'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau ers hynny, ac maent wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Cadarnhaodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion fod yr ymgynghoriad ar ddrafft Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau 5 Mlynedd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2020-2025 wedi'i lansio ar 9 Mawrth 2020, ac fe'i cyd-gysylltwyd gan Adran Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor. Crëwyd crynodeb o'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau a datblygwyd arolwg a oedd yn cynnwys 11 cwestiwn.

Anfonwyd yr arolwg at bob un o'r 1,401 o aelodau Panel Dinasyddion hefyd, yn eu ffurfiau dewisol, ac at 170 o grwpiau rhanddeiliaid a nodwyd gan y tîm Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy gyswllt e-bost. Aeth BAVO ati hefyd i rannu'r ymgynghoriad â'u rhanddeiliaid er mwyn cael adborth ar Gynllun Cyflenwi Gwasanaethau 2020-2025.

Derbyniodd yr arolwg 297 o ymatebion drwy gyfuniad o arolygon ar-lein a rhai papur. Mae data demograffig cymdeithasol y Panel Dinasyddion yn adlewyrchu croestoriad da o boblogaeth y fwrdeistref sirol ac roedd yr holl ymatebwyr yn byw yn y fwrdeistref sirol.

Cadarnhaodd fod y 'penawdau' gan ymatebwyr yr arolwg wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.9 o'r adroddiad.

Yn dilyn y broses ymgynghori, lluniwyd adroddiad a oedd yn darparu canfyddiadau'r adborth ac roedd hwn ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau wedi'i ddrafftio'n wreiddiol yn barod ar gyfer y broses ymgynghori yn 2019-20, ond fod effaith COVID-19 wedi arwain at oedi cyn datblygu'r adroddiad ac, o ganlyniad, mae llawer o'r ffigurau ariannol yn y cynllun yn seiliedig ar ffigurau 2019-20 yn hytrach nag amcanestyniadau o'r flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2020-21. Byddai'r ffigurau'n cael eu diweddaru'n unol â hynny cyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau.

Canmolodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad, gan ychwanegu bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn y Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau yn ogystal â'r hyn a ymrwymwyd i'r Cynllun Comisiynu blaenorol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol at baragraff 3.6 o'r adroddiad a gofynnodd a fyddai unrhyw effaith fawr ar y Cynllun o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Atebodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion y gallai'r pandemig ymyrryd a/neu ohirio rhai o nodau ac amcanion allweddol y Cynlluniau, ac efallai y bydd angen blaenoriaethu gwasanaethau, rhai newydd eu cyflwyno o bosibl, o ganlyniad i'r salwch, yn enwedig os bydd effeithiau'r cynlluniau'n parhau am beth amser eto i ddod. Ychwanegodd fod Gofalwyr, yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio ym maes Cartrefi Gofal, wedi bod yn eithriadol o brysur ers mis Mawrth 2020 gyda llwythi gwaith heriol a heriol iawn ers i Covid-19 ddod i'r amlwg. Felly, i grynhoi, er y byddai'r Cynllun yn cael ei gyflawni'n llawn, gallai hyn gymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio y byddai'r Cynllun yn parhau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl pobl, yn enwedig ers i Covid-19 ddod i'r amlwg, y rhai â materion lefel isel ynghyd â'r rhai â materion hirdymor mwy cymhleth. Gofynnodd hefyd a oedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn rhan o'r gwaith uchod hyd yma, ac os oeddent am wneud wrth symud ymlaen, gan y byddai angen adlinio rhai o gynigion y Cynllun â Fframwaith Cynllunio Rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth.

Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod gweithio mewn partneriaeth yn ystod y pandemig wedi bod yn hollbwysig o bersbectif gweithredol a strategol, gyda chynllunio'r gweithlu ac adeiladu cyfleoedd yn cael ei gyflawni er gwaetha'r her. Roedd y blaenoriaethau allweddol a drafodwyd gyda phartneriaid CBSP wedi cynnwys adeiladu seilwaith ar draws cartrefi gofal yn ogystal â darparu gwelyau ychwanegol yn yr ysbyty i bobl â'r firws, a pharhau i ddarparu gofal digonol i'r rhai ag afiechydon ac anhwylderau eraill. Roedd cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl hefyd wedi'i drafod, ychwanegodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a gweithredwyd ar hynny fel rhan o waith y broses bartneriaeth.

Daeth y Dirprwy Arweinydd â'r ddadl ar yr eitem hon i ben drwy gynghori y dylid adolygu'r Cynllun o bryd i'w gilydd, wedi iddo gael ei sefydlu'n llawn a'i 'ddiogelu ar gyfer y dyfodol', er mwyn sicrhau bod ei nodau a'i amcanion yn parhau i ddiwallu anghenion dinasyddion gan gynnwys unrhyw rai a allai newid.

Atebodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion drwy ddweud y byddai'r Cynllun yn cael ei addasu ac y byddai'n esblygu wrth i amser fynd rhagddo, er mwyn diwallu unrhyw anghenion a gofynion sy'n newid yn y boblogaeth bresennol ac yn y dyfodol o fewn CBSP, a bod Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn awyddus i ddatblygu'r Cynllun ymhellach yn unol â'r egwyddor hon. Byddai Byrddau Ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol Plant hefyd yn llywio ac yn diweddaru'r Cynllun.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

(1) Nodi'r adborth a gafwyd o'r ymarfer cyfathrebu ac ymgysylltu a oedd yn ystyried cynnwys ac uchelgais y Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau fel gweledigaeth o wella gwasanaethau.
(2) Cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Gwasanaethau: Ein Gweledigaeth Strategol 5 Mlynedd 2020 – 2025 fel dogfen strategol briodol sy'n nodi bwriadau'r Cyngor ar gyfer gwella gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynwyd gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles;
(3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r Cynllun mewn perthynas â'r ffigurau ariannol ar gyfer 2020/21 cyn ei gyhoeddi.

536. ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AWDURDODAU LLEOL AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) EBRILL 2019 – MAWRTH 2020

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a'i ddiben oedd hysbysu Pwyllgor y Cabinet o adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, ac i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r adolygiad blynyddol.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Bennaeth y Gwasanaethau i Blant gyda chyfraniadau gan y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

O ran cefndir yr adroddiad, mae’r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 yn amlinellu bwriad AGC i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol, a fyddai'n:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gan AGC yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud wrth weithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau o ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod y llythyr adolygu blynyddol wedi'i gyhoeddi ar 3 Awst 2020 a’i fod yn crynhoi adolygiad AGC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ran cyflawni ei swyddogaethau statudol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Mae cynnwys llythyr perfformiad 2019-20 wedi’i seilio ar y gweithgaredd gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Y gweithgaredd hwn oedd arolygu gwasanaethau oedolion hŷn ym mis Medi 2019, a thrafodaethau ac ymweliadau amrywiol â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn ystod y flwyddyn. Cafodd gweithgarwch â ffocws a oedd wedi’i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2020 ei ohirio oherwydd COVID-19.

Roedd y llythyr perfformiad blynyddol ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Crynhodd y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014 o dan benawdau Llesiant, Pobl, Atal a Phartneriaethau. Roedd y cynnwys yn adlewyrchiad cywir o drafodaethau'r AGC gyda'r gyfarwyddiaeth a'u canfyddiadau parhaus sydd wedi'u rhannu'n gyson â CBSP.

Roedd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd yn sgil yr arolygiad o oedolion hŷn ym mis Medi 2019 wedi'i atodi yn Atodiad 2, er gwybodaeth i'r Aelodau.

Sicrhaodd Pennaeth y Gwasanaethau i Blant yr Aelodau fod y gwelliannau a argymhellwyd gan AGC yn cael eu datblygu, ond bod nifer sylweddol o feysydd cryf yn y maes gwasanaeth hwn hefyd a gafodd gydnabyddiaeth yn arolygiad yr AGC.

Ychwanegodd fod amserlenni Asesiadau Plant wedi gwella ers yr arolygiad, gan fod y targedau ar ddiwedd mis Mawrth ar 74%, a’u bod bellach yn cyrraedd 96%. Roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal yn weddol uchel, er bod y cyfnod clo wedi effeithio ar rywfaint o'r gwaith yn ymwneud â'r maes hwn. Roedd Pennaeth y Gwasanaethau i Blant yn falch o ddweud nad oedd unrhyw blant ar hyn o bryd mewn lleoliadau sydd ddim yn cael eu rheoleiddio.

Ychwanegodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion fod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl Hŷn wedi cael ei ystyried gan y Cabinet ychydig cyn y cyfnod clo. Roedd targedau gwella o fewn hyn yn cael eu datblygu a, lle bo hynny'n berthnasol, roedd dyddiadau targed ar gyfer cwblhau'r rhain yn cael eu nodi yn y Cynllun.

Roedd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn falch o'r cynnydd a wnaed a'r cryfderau a nodwyd gan yr AGC yn y ddau faes gwasanaeth. Mae yna bethau i'w gwella yn sgil y math yma o arolygiad yn ddi-ffael, ac roedd yn falch o nodi bod gwaith yn mynd rhagddo mewn meysydd lle nodwyd y gellid gwella.

Roedd yr Arweinydd hefyd yn falch o'r adroddiad a gofynnodd i unrhyw gamau gweithredu na chymerwyd i gael eu nodi wrth ystyried yr Adroddiad Blynyddol, a fyddai'n cael ei adrodd i'r Cyngor ar ddyddiad priodol yn y dyfodol. Yn y cyfamser, teimlai y dylid disgwyl adroddiad cynnydd i'r Cabinet ymhen 3/4 mis, er mwyn i Aelodau allu monitro cynnydd yn y ddau faes Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion.

Dywedodd y Swyddog arweiniol eu bod yn hapus â'r dull hwn.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn cymeradwyo canfyddiadau'r AGC fel y'u nodir yn yr Atodiadau i'r adroddiad.

537. PWYLLGOR Y CABINET - CYLCH GORCHWYL AC ADOLYGIAD AELODAETH RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad mewn perthynas â'r mater uchod.

Dywedodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod y Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, yn ymrwymo i "archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill, ac os oes angen, i ddiwygio'r ffordd y maent yn derbyn gofal". Atgyfnerthir hyn gan y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb, gyda gofal cymdeithasol yn 1 o'r 5 maes blaenoriaeth, gyda chamau i'w cymryd a'u cyflawni fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad.

Dywedodd fod Llywodraeth Cymru bellach yn cychwyn ar raglen waith a gweithgarwch ymgysylltu helaeth i ddatblygu dull 'newydd' o ymdrin â rhianta corfforaethol. Mae'r dull newydd yn ymwneud â gwneud pethau'n wahanol, a manteisio ar alluoedd sefydliadau unigol, gan gynnwys Siarter Wirfoddol newydd y cyfeirir ati ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Mae'r rhaglen waith yn cynnwys ymgysylltu â charfan eang o blant â phrofiad o ofal i nodi beth mae rhianta corfforaethol yn ei olygu iddynt, a beth yw eu disgwyliadau o'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd. Gan weithio gyda'r garfan hon, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyd-lunio Siarter Wirfoddol y gall sefydliadau ei mabwysiadu i nodi eu hymrwymiad a'u cynnig unigryw i ofalu am blant profiadol. Bydd y Siarter Wirfoddol hon yn galluogi'r holl randdeiliaid, ar draws y sector cyhoeddus a phreifat, ac yn y meysydd sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb, i ymrwymo i ddatganiad cyffredin o wella cymorth a gweithredu wrth weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal. Rhagwelir y bydd y Siarter yn caniatáu i lofnodwyr ddisgrifio sut y maent yn ymgysylltu â phlant sydd phrofiad o ofal a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud yn wahanol neu ei gynnig yn ogystal â phlant sy'n cael profiad o ofal yn y dyfodol.

Parhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant drwy ddweud y byddant hefyd, er mwyn adeiladu ar y cytundebau fel y'u nodir yn y Siarter Wirfoddol, yn ceisio defnyddio pwerau deddfwriaethol presennol i gryfhau canllawiau statudol, i egluro rolau a chyfrifoldebau,

ac i ymestyn dyletswyddau ar draws y sector cyhoeddus. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy fabwysiadu'r egwyddorion a amlinellir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

Mae aelodaeth Pwyllgor Cabinet presennol y Cyngor - Rhianta Corfforaethol yn cynnwys 15 Aelod Etholedig (6 ohonynt yn Aelodau Cabinet a chanddynt hawliau pleidleisio), y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) a’r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Dangoswyd Cylch Gorchwyl presennol y Pwyllgor ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Yng nghyfarfod diwethaf Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet, trafododd yr Aelodau sut y gellid ei gryfhau a beth fyddai gwerth ymestyn aelodaeth i asiantaethau partner allweddol. Yn bwysig, roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i sicrhau bod lleisiau plant sy'n derbyn gofal (neu blant â phrofiad o ofal) yn cael eu clywed.

Croesawodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar rôl estynedig partneriaid i gynorthwyo yn y modd uchod, gan eu bod hefyd yn rhieni corfforaethol, a chroesawodd y syniad o glywed mwy o leisiau Gofalwyr Ifanc a’u tebyg.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

(1) Nodi goblygiadau lleol rhaglen waith Llywodraeth Cymru a chymeradwyo cychwyn adolygiad o Bwyllgor presennol y Cabinet - Cylch Gorchwyl Rhianta Corfforaethol ac aelodaeth.

(2) Cymeradwyo sefydlu Gweithgor i gynnal yr adolygiad, dan arweiniad Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant, ac i gynnwys cydweithwyr corfforaethol a chynrychiolaeth gan bartneriaid allanol allweddol yn ogystal â phobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu sydd wedi derbyn gofal, yr Awdurdod.

(3) Nodi y bydd canfyddiadau'r Gweithgor ac unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl ac aelodaeth Pwyllgor y Cabinet – Rhianta Corfforaethol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

538. POLISI TEITHIO GAN DDYSGWYR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad, a'i ddiben oedd:

- rhoi diweddariad i’r Cabinet ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori a gymeradwywyd gan y Cabinet ynghylch y newidiadau arfaethedig i Bolisi Teithio gan Ddysgwyr yr awdurdod lleol;
- cynorthwyo'r Cabinet i benderfynu a ddylid parhau ag unrhyw un o'r cynigion ai peidio;
- nodi sut y byddai'r cynigion yn cyfrannu at yr arbedion cyffredinol i strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor; ac
- adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad strategol annibynnol o drafnidiaeth.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp – Strategaeth Fusnes a Pherfformiad mai un o nodau ac amcanion yr adroddiad oedd canfod sut y gallai'r Cyngor wireddu’r arbedion a nodwyd ar gyfer maes Teithio gan Ddysgwyr, a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r gorwariant sylweddol presennol.

O ran cefndir yr adroddiad, dywedodd wrth y Cabinet fod nifer sylweddol o gymhlethdodau yn cael eu hamlinellu ynddo, a rhoddodd grynodeb ohonynt fel a ganlyn:-

1. Mynd i'r afael â chyfrifoldeb statudol yr Awdurdod Lleol a nodwyd ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) ac, yn benodol, pellteroedd statudol ac argaeledd llwybrau cerdded i ysgolion.
2. Mae'r gyllideb Teithio gan Ddysgwyr o dan bwysau sylweddol, oherwydd bod arbedion o £1.9m wedi'u gwneud ers 2014/15 heb unrhyw newid polisi cyfatebol.
3. Er y gwnaethpwyd newid polisi o'r fath yn 2015, nid oedd yn ddigon arwyddocaol i gyfrif am yr holl arbedion disgwyliedig a nodwyd yn yr MTFS
4. Mewn gwirionedd, mae costau wedi cynyddu ar draws sawl agwedd ar gludiant i'r ysgol, er enghraifft ar gyfer disgyblion ADY, disgyblion anabl, a disgyblion ag anghenion meddygol cymhleth.
5. Daeth yr asesiadau o lwybrau diogel (i ysgolion) i ben yn ddiweddar, gan gefnogi ein gallu i weithredu newid polisi gyda'r nod o wneud arbedion sylweddol a dod â'n hunain o ddiffyg, ac i fynd i'r afael â manylion yr hyn a gyflwynwyd yn y Polisi Teithio gan Ddysgwyr 2015 presennol. Er enghraifft, bydd gan rai disgyblion sydd â brodyr a chwiorydd gymhwysedd i gael cludiant, a rhai sydd heb rai yn anghymwys. Mae rhai disgyblion hŷn a arferai dderbyn cludiant i'r ysgol ar bellter y polisi blaenorol yn parhau i elwa ohono, tra bo disgyblion ieuengach ddim.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, dywedodd Rheolwr y Grŵp – Strategaeth Fusnes a Pherfformiad fod y Cabinet wedi cytuno ar ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019.

Cyfeiriodd Rheolwr y Grŵp – Strategaeth a Pherfformiad Busnes yr Aelodau at dudalen 639 o'r adroddiad (Tabl 1) i weld yr arbedion MTFS a chynnydd y gyllideb yn eu cyfanrwydd, a wnaed er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol hwn.

Yna cyfeiriodd at dudalen 642 o'r adroddiad a'r pum cynnig a ystyrir yno i fynd i'r afael â rhai o'r materion y cyfeirir atynt uchod, ac a nodwyd yn y rhan hon o'r adroddiad eglurhaol ac yn y ddogfen Ymgynghori â'r Cyhoedd (Atodiad 1 i'r adroddiad).

Rhoddodd Tabl 2 yr adroddiad fanylion am sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar ddisgyblion a myfyrwyr.

O ran yr ymgynghoriad, cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp – Strategaeth Fusnes a Pherfformiad fod ychydig o dan 1400 o ryngweithiadau wedi bod yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, ymateb a oedd yn gadarnhaol.

O'r manylion a geir ar dudalennau 649 i 651 o'r adroddiad ac yn Atodiad 2 (yr adroddiad Ymgynghori), gallai'r Aelodau ddirnad cryfder teimladau'r cyhoedd o blaid ac yn erbyn y cynigion polisi.

Roedd tudalen 651 o'r adroddiad yn cynnwys asesiad o bob un o'r cynigion hyn.

Roedd Tabl 5 yr adroddiad yn nodi'r elfen bolisi gyntaf o ran cymhwysedd a llwybrau cerdded diogel, ynghyd â'r opsiynau sydd ar gael i'r Cabinet, yn ogystal â'r risgiau sy'n gysylltiedig â derbyn y cynnig hwnnw neu beidio.

Pwysleisiodd Rheolwr y Grŵp – Strategaeth Fusnes a Pherfformiad fod dau fater pwysig i'w hystyried, sef, yn gyntaf: bod asesiadau o ran gweithredu'r llwybrau cerdded wedi'u cwblhau yn unol â deddfwriaeth, a rhaid ystyried y llwybrau un ai fel rhai sydd ar gael neu rhai sydd ddim ar gael, yn unol â'r asesiadau. Fodd bynnag, mae modd y gweithredir neu cymhwysir yr asesiadau hyn i'w ddewis yn ôl disgresiwn y Cabinet.

Ac yn ail: o ran y cynnig i ddileu darpariaeth feithrin fel y dangosir ar dudalen 662 o'r adroddiad, eglurodd effaith anghymesur debygol y cynnig hwn ar addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg seiliedig ar ffydd, ond yng nghyd-destun y broses nodwyd bod

cludo plant meithrin yn y bysiau mawr presennol yn cael ei ystyried yn anniogel i ddisgyblion meithrin.

Aeth yr adroddiad ymlaen wedyn i fanylu ar yr opsiynau a nodwyd i fynd i'r afael â'r materion diogelwch uchod er mwyn i'r Cabinet eu hystyried, er enghraifft, drwy daliadau uniongyrchol neu ddefnyddio cerbydau llai, gan na ellid addasu'r cerbydau mwy sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ateb anghenion gofynion diogelwch disgyblion meithrin.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Strategaeth Fusnes a Pherfformiad, ei fod, drwy gydol yr adroddiad, wedi cyfeirio at ddyletswydd statudol y Cyngor o ran darparu cludiant i'r ysgol, yn enwedig i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r arbedion posibl yr oedd angen eu gwireddu.

Roedd hefyd wedi cyfeirio at y newidiadau i'r cynigion polisi a'u heffaith, ac er nad oes dyletswydd gyfreithiol gyfatebol ar gyfer addysg seiliedig ar ffydd, roedd hyn wedi'i ystyried yn yr un cyd-destun, yn enwedig lle gallai'r cynigion polisi gael effaith anghymesur.

Daeth i gasgliad drwy ddweud bod gweddill yr adroddiad yn canolbwyntio ar ganlyniad yr Adolygiad Strategol Annibynnol o Drafnidiaeth, a oedd yn cynnwys argymhellion annibynnol ar adroddiad y Cabinet.

Diolchodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio i'r Swyddog am yr adroddiad a'r gwaith caled a wnaed yn hyn o beth er mwyn adlewyrchu'r holl newidynnau ac opsiynau a oedd ar gael i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys ar yr eitem hon.

Fodd bynnag, ychwanegodd fod ganddo nifer o gynigion diwygiedig a awgrymwyd i ffurfio penderfyniad ar yr adroddiad. Yna eglurodd y rhesymeg y tu ôl i bob un o'r rhain er budd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Cytunodd y Cabinet ar y cynigion diwygiedig hyn ac fe'u hadlewyrchwyd yn ei benderfyniad fel y nodir isod.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Fod y Cabinet yn cynnig:

(1) Y dylid gohirio'r argymhelliad ynghylch pellteroedd statudol i ysgolion ac y dylid aros am fanylion cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2020 ynghylch ei adolygiad o'r terfynau statudol ar gyfer teithio gan ddysgwyr, er mwyn i'r awdurdod lleol allu ystyried sut rydym yn cysoni canllawiau CSBP â chynigion ariannu Llywodraeth Cymru a therfynau statudol.

(2) O ran Teithio ADY, bod EDSU yn ymchwilio i system o daliadau uniongyrchol i rieni, gwarcheidwaid, a gofalwyr. Gallai hyn arwain at arbedion, tra hefyd yn defnyddio cyllideb i roi mwy o hyblygrwydd a dewis o ddulliau trafnidiaeth i rieni, gwarcheidwaid, a gofalwyr.

(3) Dileu, fel yr argymhellwyd, enghreifftiau penodol o'r amgylchiadau arbennig lle bydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant dewisol o Bolisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg yr awdurdod lleol.

(4) O ran Teithio Ôl-16, bod swyddogion Addysg a Chymorth i Deuluoedd, ynghyd â Swyddogion Trafnidiaeth yn parhau â'r drafodaeth a gychwynnwyd gyda First Cymru yn ddiweddar. Rydym yn ceisio ymgysylltu â First Cymru, darparwyr trafnidiaeth eraill yn y sector preifat, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, a darparwyr 16+ eraill, er mwyn gwneud arbedion, ond yn bennaf i greu cyllideb a fydd yn rhoi "pàs teithio" i fyfyrwyr. Byddai hyn yn fwy hyblyg na chludiant traddodiadol o'r cartref i ddysgu a byddai'n ateb mwy "aeddfed" i bobl ifanc. Byddai hyn yn helpu i greu cenhedlaeth newydd o

ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, a byddai'n fwy addas ar gyfer y strategaeth a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan CBSP ar gyfer addysg 16+ a chweched dosbarth. Rhagwelir hefyd y sefydliad o "rwyd ddiogelwch" trafnidiaeth fwy confensiynol i nifer fach o fyfyrwyr heb sydd heb fynediad rhesymol i lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.

(5) O ran Trafnidiaeth Meithrin, derbynnir y pryderon a amlinellir yn yr adroddiad a chaiff ei gydnabod na all darpariaeth cludiant meithrin barhau ar ei ffurf bresennol a'i bod yn ofynnol iddi newid yn y dyfodol agos oherwydd materion iechyd a diogelwch. Cydnabyddir nad yw hyn wedi'i ysgogi gan doriad yn y gyllideb, ond fodd bynnag, rhaid i ateb fod yn gost-effeithiol oherwydd ei bod yn swyddogaeth anstatudol. Felly, gofynnir i swyddogion fynd ati'n chwim i archwilio gweithgareddau lliniaru addas er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, defnyddio clustogau atgyfnerthu a/neu gyflogi hebryngwr ychwanegol ar bob bws, wedi'i hyfforddi'n benodol i oruchwylio teithwyr oedran meithrin. Mae'r Cabinet yn gofyn i'r dewisiadau amgen a'r costau a ragwelir i gael eu dwyn gerbron yr Aelodau fel rhan o adroddiad pellach, cyn gynted â phosibl.

539. <u>RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION BAND B - YSGOL GYNRADD MYNYDD CYNFFIG</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad yn ymwneud â'r cynigion diweddaraf mewn perthynas â'r ysgol uchod.

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndirol, yn enwedig bod y Cabinet, ym mis Ebrill 2009, wedi cymeradwyo nifer o brosiectau unigol a ddeilliodd o astudiaeth ddichonoldeb a oedd yn adolygu darpariaeth dysgu 3 i 18 yn ardal Cefn Cribwr, Corneli, Mynydd Cynffig a'r Pîl. Cafwyd cymeradwyaeth i ddatblygu prosiect a fyddai'n darparu ar gyfer y bwriad i gyfuno Ysgolion Babanod ac Iau Mynydd Cynffig. Derbyniodd y Cabinet adroddiadau cynnydd pellach o'r dyddiad hwnnw hyd at y dyddiad presennol.

Eglurodd fod safle babanod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, ym mis Tachwedd 2019, wedi dioddef methiant trychinebus ei system wresogi a bod y gwaith atgyweirio wedi arwain at gau adeilad yr ysgol dros dro.

Yn sgil yr arolwg cyflwr adeilad dilynol, gostyngwyd cyflwr yr ysgol o'i lefel blaenorol, sef "C", i gategori "D" (hynny yw, 'Gwael – diwedd oes a/neu mewn perygl o gau yn fuan, angen gwaith sylweddol ar unwaith/brys'). Roedd natur y dadfeilio a'r amrywiaeth o faterion a amlygwyd yn yr arolwg yn gwneud gwaith atgyweirio ynysig i elfennau ffabrig unigol yr ysgol yn heriol iawn, ac yn anymarferol yn economaidd. O ganlyniad i'r risg iechyd a diogelwch i ddisgyblion a staff, cytunwyd y byddai adeilad yr ysgol yn cau ac y byddai llety addysgu amgen yn cael ei ddarparu fel mater o frys.

Cafwyd cyllid drwy'r rhaglen gyfalaf er mwyn caffael llety dros dro.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd yr Aelodau fod cymeradwyaeth y Cabinet wedi'i derbyn ar 30 Mehefin 2020 i ail-flaenoriaethu Band B, gan gyflwyno'r cynllun ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. Derbyniwyd cymeradwyaeth i gyflwyno SOP diwygiedig i Lywodraeth Cymru i adlewyrchu hyn ac i swyddogion ddechrau arfarniad opsiynau ac astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ysgol gynradd newydd arfaethedig. Mae paragraff 4.5 o'r adroddiad yn nodi rhestr hir o opsiynau addysg a ystyriwyd ar gyfer yr ysgol hon.

O ran cam nesaf y broses achosion busnes, cyflwynwyd rhestr fer o opsiynau addysg, sef:

Opsiwn 1 Gwneud dim

| | |
|---|---|
| Opsiwn 2 | Adnewyddu bloc babanod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, yr adeilad iau 'fel ag y mae'. Mae'r ysgol yn aros ar ddau safle ar wahân (ar y rhestr fer – gwneud y lleiaf) |
| Opsiwn 3 | Estyniad newydd ar gyfer adran fabanod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar y safle iau (ar y rhestr fer – canolig) |
| Opsiwn 4 | Adeilad newydd yn lle Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig - 2FE a darpariaeth feithrin 75 lle ar safle iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig (ar y rhestr fer – gwneud y mwyaf) |

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod canlyniad y gwerthusiadau'n dangos y dylid datblygu'r astudiaeth ddichonoldeb ar safle iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. Bydd yr astudiaeth yn cydredeg â phroses achos busnes Llywodraeth Cymru. Rhagwelir mai'r opsiwn 'gwneud y mwyaf' fyddai'n gofyn am gymryd y mwyaf o dir, ac felly'r opsiwn hwn, sef adeilad newydd newydd yn lle Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig - 2FE a meithrinfa 75 lle, y dylid ei chymryd drwy'r cam dichonoldeb fel yr opsiwn a ffefrir.
Cwblhaodd ei adroddiad drwy amlinellu ei oblygiadau ariannol.
Teimlai'r Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio fod yr adroddiad yn newyddion da gan y byddai disgyblion y lleoliad yn elwa ar lety tymor byr i blant oedran meithrin yn ogystal ag addewidion tymor hwy fel yr amlinellir ym mhwynt bwled 4 argymhelliad yr adroddiadau.
Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn falch o weld bod dros £10m o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu ar gyfer adeilad newydd yn ysgol gynradd Mynydd Cynffig, adeilad a fydd yn galluogi'r babanod a'r plant iau i fod ar yr un safle am y tro cyntaf, gan gynnig cyfnod pontio di-dor.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Fod y Cabinet wedi:

- nodi canlyniad y broses gwerthuso addysg a safle a gynhaliwyd mewn perthynas ag ysgol gynradd newydd arfaethedig Mynydd Cynffig;
- cymeradwyo'r rhestr fer o opsiynau addysg i'w hystyried yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol, fel y nodir yn 4.8 o'r adroddiad;
- cymeradwyo bod safle iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn cael ei symud ymlaen i'r cam dichonoldeb fel yr opsiwn safle sy'n cael ei ffafrio; Ac
- cymeradwyo y dylid ystyried Ysgol Gynradd arfaethedig Mynydd Cynffig fel yr opsiwn addysg a ffefrir yn y broses astudiaeth ddichonoldeb h.y. darpariaeth feithrin 2 ffurf (AB) ynghyd â darpariaeth feithrin 75 lle.

540. <u>PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL (ALL)</u>

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi llywodraethwyr awdurdod lleol i'r cyrff llywodraethu ysgolion a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Eglurodd fod pob un o'r 8 ymgeisydd a restrwyd ar gyfer y 6 ysgol sydd yn nhabl paragraff 4.1 yr adroddiad yn bodloni'r meini prawf cymeradwy ar gyfer penodi'n llywodraethwyr awdurdodau lleol ac nad oedd cystadleuaeth am unrhyw un o'r swyddi gwag

Ychwanegodd fod atodiad A yr adroddiad yn manylu ar y 25 swydd wag arall yr oedd angen eu llenwi mewn 20 ysgol.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio bwysigrwydd bod gweddill y swyddi gwag mewn ysgolion, fel y cyfeirir atynt uchod, yn cael eu llenwi cyn gynted ag y bo modd.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau o Lywodraethwyr ALl a restrir ym mharagraffau 4.1 yr adroddiad.

541. CABINET, PWYLLGOR Y CABINET RHIANTA CORFFORAETHOL A PHWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol adroddiad, a'i ddiben oedd:

a. ceisio cymeradwyaeth ar gyfer trefnu cyfarfodydd y Cabinet, Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet, a Phwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod Hydref 2020 - Ebrill 2021.

b. cynnig Hyrwyddwyr Plant a Chydraddoldeb a fydd yn cadeirio Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol a Phwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb.

c. cadarnhau'r broses ar gyfer enwebu Hyrwyddwyr o bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

d. ceisio cymeradwyaeth y gwahoddedigion i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb fel y'u henwebwyd gan bob un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cyngor.

Dangoswyd amserlen arfaethedig cyfarfodydd y Cabinet ar gyfer y cyfnod Rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2021 ym mharagraff 4.1.2 o'r adroddiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r cyfarfodydd yn dilyn cylch 4 wythnos.

Manylwyd ar y dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet a Phwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ym mharagraffau 4.2.1 a 4.3 o'r adroddiad, yn y drefn honno.

Rhoddodd yr adroddiad ragor o wybodaeth am gynigion aelodaeth ynghylch Aelodau Gwadd i eistedd ar Bwyllgorau uchod y Cabinet, ac esboniwyd y rhain ym mhrif gorff yr adroddiad, gyda'r Gwahoddedigion a enwir ar gyfer Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb yn cael eu dangos ym mharagraff 4.3.3. Roedd yr Aelodau a wahoddwyd a ddangoswyd yn seiliedig ar reolau cydbwysedd gwleidyddol ar aelodaeth o gyrff y Cyngor.

Yn olaf, cynigiodd yr adroddiad Hyrwyddwyr Aelodau Cabinet ar gyfer y meysydd gwasanaeth uchod ymhellach, a fyddai hefyd wedyn yn Gadeiryddion pob un o Bwyllgorau'r Cabinet.

PENDERFYNIAD:

(1) Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y Cabinet, Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet, a chyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod Hydref 2020 - Ebrill 2021 fel yr amlinellir ym Mharagraffau 4.1.2, 4.2.1 a 4.3.1 o'r adroddiad.

(2) Bod yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn cael ei benodi'n Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc, yn Hyrwyddwr Plant a Phobl Ifanc, a'n Gadeirydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

(3) Cymeradwyo'r broses ar gyfer penderfynu ar wahoddedigion Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet fel yr amlinellir ym mharagraff 4.2.3 (o'r adroddiad).

(4) Bod yr Aelod Cabinet, Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol, yn cael ei benodi'n Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac yn Gadeirydd Cydraddoldeb Pwyllgor y Cabinet.

(5) Cymeradwyodd y Cabinet yr enwebiadau ar gyfer gwahoddedigion i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar sail 4 Aelod o'r Grŵp Llafur, 2 Aelod o'r Grŵp Ceidwadol, 2 Aelod o Grŵp Annibynnol y Gynghrair, ac 1 yr un o Grwpiau Annibynnol Llynfi a Phlaid Cymru fel yr amlinellir yn 4.3.3 o'r adroddiad.

542. NODI ADRODDIAD GWYBODAETH

Cyflwynodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf, ac sydd angen ei nodi (ac a oedd ynghlwm).

Dangoswyd manylion yr Adroddiad Gwybodaeth ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad eglurhaol.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

543. EITEMAU BRYS

Dim

544. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNIAD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd bod budd y cyhoedd o gynnal yr esemptiad, yn yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

545. CADARNHAU COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion eithriedig y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2020 a 21 Gorffennaf 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:30